**Strategaeth Arloesi i Gymru Llywodraeth Cymru**

Papur briffio a chyfle i ddylanwadu

Awst 2022

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad ar ei Strategaeth Arloesi newydd i Gymru (y Strategaeth).

Nodir mai gweledigaeth y Strategaeth yw 'meithrin diwylliant arloesi bywiog mewn Cymru gryfach, decach a gwyrddach'.

Ei chenhadaeth yw i 'greu cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith teg'.

Bydd y saith nod llesiant yn arwain agenda'r Strategaeth ac yn llywio camau gweithredu ar gyfer 'y llywodraeth, busnesau, y trydydd sector, y byd academaidd a dinasyddion i gyflawni nodau cyraeddadwy ac uchelgeisiol mewn economi llesiant'. Mae'r Strategaeth yn dilyn ymlaen o ddogfen 2013, *Strategaeth Arloesi Cymru.*

Diben y Strategaeth yw gweithredu o fewn Strategaeth Arloesi Llywodraeth y DU ei hun a map ffordd Ymchwil a Datblygu'r DU.

## Pam mae hon yn bwysig i'r sector gwirfoddol?

Mae'r sector yn ymwneud â nifer di-ri o feysydd gwaith a amlinellir yn y Strategaeth. Er enghraifft, mae'r Strategaeth yn seiliedig ar flaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun Cymru gryfach, decach a gwyrddach, a oedd yn cynnwys:

- cynnig gwaith, addysg, hyfforddiant neu gyfleoedd hunangyflogaeth i bawb o dan 25 oed
- mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd
- hyrwyddo Gwaith Teg
- cefnogi pobl â chyflwr iechyd hirdymor i weithio
- cynyddu lefelau sgiliau a chymwysterau, a symudedd y gweithlu

Mae'r sector gwirfoddol yn gwneud gwaith amhrisiadwy yn yr holl feysydd hyn. Er bod y Strategaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar y sectorau preifat a chyhoeddus, mae'n rhaid i'r sector gwirfoddol gael cyfle i ddangos ei fod mor arloesol, os nad yn fwy arloesol, na sectorau eraill, ac i allu cyflwyno cynigion am gyllid lle y bo'n

briodol. Mae WEFO yn cyfrifo bod mwy na £500 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu yng Nghymru yng nghylch diwethaf cyllid yr UE. Nawr bod y cyllid UE hwnnw wedi dod i ben, mae'n rhaid i'r sector fod yn ymwybodol o gyfleoedd cyllido i ddod yn y maes arloesedd.

Bydd llwyddiant y Strategaeth yn cael ei fesur yn erbyn amrywiaeth eang o feini prawf. Mae'r rhai canlynol yn arbennig o dyngedfennol i fudiadau'r sector gwirfoddol sy'n gweithredu yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol:

- Canlyniadau gwell i gleifion/dinasyddion
- Profiad gwell i gleifion/dinasyddion

Mae'r Strategaeth yn trafod y 'genhadaeth am arloesedd' yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol mewn manylder. Mae'n nodi pwysigrwydd y sector gwirfoddol, ynghyd â nodi y bydd yn targedu 'ffyrdd newydd a gwahanol o weithio' ac yn cefnogi ffyrdd gwell o 'fabwysiadu mwy o arloesedd'. Ceir llawer mwy o fanylder yn y Strategaeth nag y gellir ei gynnwys mewn papur briffio. Edrychwch ar y ddogfen lawn.

Dyma rai meini prawf eraill o bwys arbennig i'r sector:

- Defnyddio llai o ddeunyddiau crai
- Cynnydd yn ffrydiau ariannu Llywodraeth y DU i Gymru
- Mentrau/swyddi newydd
- Defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon

Mae'r rhan helaeth o'r Strategaeth yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys arloesedd bosibl yn y system drafnidiaeth, a phwysigrwydd yr economi gylchol, gweithio'n ddigidol a newidiadau i brosesau caffael. Mae cynyddu gwydnwch Cymru yn thema ganolog hefyd, ynghyd â chydraddoldeb ac amrywiaeth a chymunedau cydlynus.

Fel y nodwyd ynghynt, mae'n amhosibl i'r papur briffio hwn gynnwys lefel y manylder sydd yn y Strategaeth lawn. Gallwch ei darllen yn ei chyfanrwydd yma.

**Yr ymgynghoriad**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y Strategaeth nawr. Bydd CGGC yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, a hoffem glywed gan gymaint â phosibl o leisiau'r sector i'w cynnwys o bosibl yn ein hymateb. Mae'r sector gwirfoddol yn hanfodol i lwyddiant neu fethiant y Strategaeth. Po fwyaf o leisiau y byddwn yn eu clywed, mwya'n byd y gall ein hymateb ddylanwadu ar y gwaith, ac mae hwn yn bolisi pwysig i ni ddylanwadu arno.

Er mwyn casglu safbwyntiau'r sector, rydym wedi datblygu arolwg sy'n seiliedig ar yr ymgynghoriad. Gallwch ei weld yma. Edrychwch arno os gwelwch yn dda.

*Noder nad oes angen ateb yr holl gwestiynau; mae croeso i chi ateb cymaint neu gyn lleied ag y dymunwch.*

Bydd yr arolwg hwn yn cau ddydd Gwener 16 Medi 2022.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Swyddog Polisi CGGC, David Cook, ar dcook@wcva.cymru.